



Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

Polisi Addoli ar y Cyd

Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol: 28 Mawrth 2019

Llofnod y Cadeirydd: _____

Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol: 26 Mawrth 2020

Llofnod y Cadeirydd: _____

Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol:

Llofnod y Cadeirydd: _____

Polisi Addoli ar y Cyd

Fel ysgol, credwn yn gryf bod addoli ar y cyd yn rhan bwysig o'n bywyd ysgol. Cynhelir gwasanaeth ysgol gyfan yn y neuadd ar ddydd Llun, Mawrth, Mercher a Gwener bob wythnos. (*gweler Trefniadau Gwasanaeth Boreol*).

Bob yn ail dydd Mercher rhoddir cyfle i'r Llysoedd gynnal gwasanaeth er mwyn iddynt gael cyfle i ymgynnull a threfnu eu gweithgareddau. Bob yn ail dydd Mercher hefyd rhoddir cyfle i ni gynnal gwasanaeth iau a hŷn.

Ceir cyfle hefyd i Benaethiaid Blwyddyn i gynnal gwasanaeth gyda disgyblion y flwyddyn yn y neuadd neu'r ffreutur bob pythefnos. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt gwrdd â'r flwyddyn a thrafod materion perthnasol.

Pan nad oes gwasanaeth yn y neuadd, disgwylir i'r dosbarthiadau nad ydynt yn ymgynnull, i gynnal gwasanaeth dosbarth byr ar ffurf Munud i Feddwl gan ddefnyddio'r adnoddau a baratowyd gan y Gweithgor Munud i Feddwl. Dosberthir copi o'r adnoddau i bob Tiwtor Dosbarth ond mae modd eu cael ar Sharepoint yr ysgol hefyd.

Pwrpas Cynnal Addoli ar y Cyd

Prif bwrpas yr Addoli ar y Cyd ym mywyd yr ysgol yw rhoi cyfle i'r ysgol i gyd-ymgynnull gan roi y cyfle i ddisgyblion fod yn rhan o addoliad sydd yn berthnasol iddynt. Mae nifer o resymau eraill hefyd dros gynnal Addoli ar y Cyd ond nid oes disgwyl i bob Addoli ar y Cyd gynnwys yr holl elfennau. Gobeithio, serch hynny, bod yr Addoli ar y Cyd dros gyfnod yn ateb pob un o'r rhesymau hyn dros eu cynnal. Mae'r Addoli ar y Cyd mewn gwasanaeth Ysgol Gyfan neu Blwyddyn neu Lys yn gyfle i wneud y canlynol:

- Gosod yr awyrgylch briodol ar gyfer y diwrnod ysgol
- I ddisgybl dderbyn profiad esthetig, lle mae'n cael cyfle addas i ymateb yn emosiynol/ysbrydol i bethau ac i syniadau
- Datblygu deallusrwydd y disgybl, yn feddyliol ac o ran gwybodaeth
- Ceisio ateb rhai o'r cwestiynau y mae plentyn yn chwilio am atebion iddynt
- Meithrin cysylltiadau gyda chymuned y tu allan i'r ysgol e.e. trwy wahodd cyfraniadau o'r tu allan
- Ennill profiadau newydd a cheisio ymateb iddynt mewn ffordd gadarnhaol
- Datblygu sgiliau cyhoeddus y disgyblion trwy ei bod yn cyfrannu i'r gwasanaeth mewn amrywiol ffyrdd, e.e. darllen, canu, cymryd at rannau arweiniol
- Cyfrannu at y themâu trawsgwricwlaidd hynny y disgwylir i ysgolion eu meithrin a'u hybu.

Nodau ac Amcanion

Yn ein gwasanaethau rydym fel ysgol yn anelu at:

- hyrwyddo datblygiad ysbrydol pob disgybl mewn ffordd sensitif a gofalus
- cyfoethogi profiadau disgyblion a'u dysgu i fod yn oddefgar o safbwyntiau ac arferion crefyddol eraill.
- Rhoi cyfle i brofi addoliad neu ddod at drothwy addoliad.
- Ystyried addoliad yn berthnasol ac ystyrlon.
- Creu awyrgylch lle gellir myfyrio'n dawel, ac ymateb yn fewnol ac yn gadarnhaol.
- Gwerthfawrogi y defnydd a wneir o symbolau a iaith mewn addoliad.
- Rhoi cyfle i ddisgyblion i ymchwilio i'w safbwyntiau crefyddol eu hunain mewn perthynas ag eraill, trwy gynnig profiadau newydd iddynt.
- Ceisio ennyn ymateb personol i gwestiynau hanfodol a thrwy ddyfnhau eu hymwybyddiaeth ysbrydol.

- Hyrwyddo ymchwil bersonol am y Gwir ac ystyr bywyd.
- Datblygu'r ymdeimlad o werthoedd o fewn yr ysgol, y gymuned leol a'r byd eang.

Cyfraniad y Gwasanaeth Addoli ar y Cyd i Addysg Ysbrydol a Moesol

Mae dyletswydd ar ysgol i gyfrannu at Addysg Ysbrydol a Moesol pob plentyn, a hynny yn ei ystyr ehangach.

Ni chyfyngir addysg ysbrydol a moesol i unrhyw gred grefyddol benodol nac i unrhyw enwad grefyddol benodol ond mae'r mwyafrif o'r Addoli ar y Cyd yn Gristnogol eu sylfaen ac yn foesol / ysbrydol eu pwyslais.

Mae Addoli ar y Cyd yn rhan allweddol o fywyd yr ysgol ac mae'n cyfrannu at wireddu nodau ac amcanion yr ysgol.

Mae addysg ysbrydol yn bennaf yn ymwneud â pherthynas â phobl eraill, ac i gredinwyr, gyda Duw. Mae hefyd yn ymwneud â chwilio am ystyr a phwrpas i fywyd ac i werthoedd ar gyfer bywyd. Dyma rhai agweddau ar ddatblygiad ysbrydol y mae Addoli ar y Cyd yn gymorth i'w datblygu

- Credoau
- gwybodaeth am hunan, megis meddyliau, teimladau, emosiynau
- y teimlad o gael ysbrydoliaeth o'r byd naturiol dirgelwch a chyrhaeddiad pobl

Yn yr un modd mae addysg foesol yn gymhleth iawn yn cynnwys pobl yn gwneud penderfyniadau ar sail yr hyn sydd yn gywir neu'n anghywir. Rhai o egwyddorion yr ysgol ar gyfer addysg foesol y meddir eu trosglwyddo trwy gyfrwng yr Addoli ar y Cyd:

- dweud y gwir
- cadw at air
- parchu hawliau ac eiddo eraill
- ymddwyn yn ystyriol at eraill
- helpu rhai llai ffodus
- pwysigrwydd dangos hunanddisgyblaeth

Yn yr un modd dylai'r gwasanaethau bwysleisio ymwrthod â'r canlynol

- bwlian
- twyllo
- creulondeb
- ymddwyn yn anghyfrifol
- anonestrwydd.

Er bod diwylliant ysgol a phynciau'r cwricwlwm yn gyfrwng i hyrwyddo agweddau ar Addysg Ysbrydol a Moesol, mae'r Addoli ar y Cyd yn gyfle gwych i arddangos a gweithredu gwerthoedd yr ysgol, a hynny yng ngŵydd y plant i gyd.

Y Gofynion Statudol

Mae'r gofynion statudol yng nghyd-destun Addoli ar y Cyd yn seiliedig ar Ddeddf Addysg 1988 a Chylchlythyr 10/94 Swyddfa Cymru. Dyma'r rhannau perthnasol:

- Rhaid i ysgolion ddarparu addoli ar y cyd bob dydd ar gyfer yr holl ddisgyblion cofrestredig. Er nad oes rhaid i ddisgyblion bl 12 a 13 bellach fod yn rhan o'r gwasanaeth, yn ôl mesur Addysg ac Arolygiadau 2006, polisi Ysgol Bro Myrddin yw eu fod yn ddisgwyliedig iddynt ymuno gyda'r myfyrdod.
- Dylai'r rhan fwyaf o weithgareddau addoli ar y cyd bob tymor fod yn bennaf Gristnogol neu'n gyffredinol Gristnogol o ran eu cymeriad. Ystyr hyn yw y dylent adlewyrchu traddodiadau cyffredinol cred Gristnogol heb fod yn nodweddiadol o unrhyw enwad Cristnogol benodol.
- Gall addoli ar y cyd ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod ysgol.
- Gall rhiant gyflwyno cais i esgusodi ei plentyn o addoli ar y cyd. Nid oes rhaid i rieni roi rhesymau. Mae'n rhaid i ddisgyblion sy'n cael eu hesgusodi gael eu goruchwyllo gan yr ysgol. Dylai prospectws yr ysgol gyfeirio at hawl y rhieni i gyflwyno cais i esgusodi eu plentyn.
- Mae gan athrawon yr hawl i beidio â chymryd rhan mewn addoli ar y cyd.

Mae'r dyfyniadau hyn yn golygu nad oes disgwyl i addoliad ysgol fod yn debyg i addoliad mewn eglwys neu gapel ond disgwylir i'r gwasanaethau adlewyrchu'r credoau a rennir gan Gristnogion o bob enwad.